Cynllun Grantiau Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Welsh Government's Wales and Africa Grant Scheme

Canllawiau ar Gynllun Grantiau Cymru ac Affrica

Cysylltu Cymru ac Affrica er mwyn galluogi gweithredu cymunedol a fydd yn cyfrannu at Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig

Mae'r canllawiau hyn wedi'u dylunio i helpu ymgeiswyr i ddeall mwy am grant Cymru ac Affrica; gan gynnwys – pwy sy'n gallu gwneud cais am gyllid, pa brosiectau sy'n gallu cael eu cyllido a'r hyn sydd ei angen gan ymgeiswyr.

Mae canllawiau penodol wedi'u nodi ar bwys y cwestiynau o fewn y ffurflen gais.

CYNLLUN GRANTIAU CYMRU AC AFFRICA 2024

Mae cynllun grantiau Cymru ac Affrica yn fenter flaenllaw gan raglen Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn galluogi grwpiau cymunedol a mudiadau yng Nghymru i gael gafael ar gyllid ar gyfer prosiectau bach sy'n cyfrannu at waith Cymru o gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a chyflwyno buddion i Gymru ac Affrica.

Mae rhaglen Cymru ac Affrica yn cefnogi ac annog cymdeithas sifil, busnesau a chyrff cyhoeddus yng Nghymru i weithredu ar dlodi yn Affrica drwy ddinasyddiaeth fyd-eang weithredol, cyfnewid sgiliau a dysgu o'i gilydd, gweithio mewn partneriaeth a gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd.

Mae cynllun grantiau Cymru ac Affrica yn gronfa grantiau ar gyfer grwpiau cymunedol a mudiadau ledled Cymru sy'n gweithio mewn partneriaethau yn Affrica Is-Sahara.

Gall ymgeiswyr wneud cais am rhwng **£1,000-£20,000 o gyllid am brosiect 12 mis.** Os hoffech drafod prosiect y tu allan i gwmpas y cyllid hwn, cysylltwch â thîm grantiau CGGC.

AMSERLEN A PHROSES AR GYFER DYFARNIADAU

Cam	Dyddiad	Manylion
Cynllun grant ar agor am geisiadau	11 Mawrth 2024	Mae'r broses ar gyfer ceisiadau cyllido yn fyw ar Borth Ymgeisio Amlbwrpas pwrpasol CGGC (MAP).
Dyddiad cau cyntaf ar gyfer cyflwyno	15 Ebrill 2024	Ni fydd modd cyflwyno ceisiadau ar ôl y dyddiad cau hwn.
Cyfarfod Panel	Mai 2024	Cymeradwyo ceisiadau a fydd yn cael eu cyllido yn ffurfiol.
Rhoi gwybod i ymgeiswyr	Mai 2024	Llythyrau cynnig grant yn cael eu hanfon at geisiadau llwyddiannus.
Dyddiad dechrau cynharaf prosiectau	27 Mai 2024	

PWY SY'N GALLU MANTEISIO AR Y GRONFA?

Er mwyn bod yn gymwys, mae'n rhaid i chi:

- Fod yn gorff corfforedig wedi'i leoli yng Nghymru ac yn gweithredu er budd pobl Cymru
- Cael dogfennau llywodraethu sy'n cynnwys clo asedau priodol a rheolaeth dosbarthu difidend
- Bod â'r gallu i ddangos trosolwg ac annibyniaeth briodol o Fwrdd cymwys â chworwm sydd ag o leiaf tri chyfarwyddwr neu ymddiriedolwr
- Cael safonau polisi lleiaf priodol ar waith (ee diogelu).

Bydd angen i ymgeiswyr hefyd sicrhau bod eu sefydliad yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- Rhaid i'r prif ymgeisydd **fod yng Nghymru**
- Dylai'r holl weithgareddau ddangos budd amlwg i Gymru
- Dylai ceisiadau ddangos yn glir eu bod yn cyd-fynd ag un neu ragor o'r pedwar maes thematig
- Dylai ymgeiswyr â phrofiad blaenorol o gyflawni gweithgareddau a gyllidir gan grantiau o Raglen Cymru ac Affrica ddangos effaith y prosiect hwn ac unrhyw wersi a ddysgwyd
- Ni all unigolion ymgeisio; fodd bynnag, gallent wneud cais drwy fudiad derbyn, y mudiad fydd yn dal y cytundeb grant ac ni fydd unrhyw daliadau uniongyrchol yn cael eu gwneud o gynllun grantiau Cymru Affrica i gyfrif banc unigolyn
- Bydd popeth perthnasol a brynir gyda chyllid cynllun grantiau Cymru ac Affrica yn ystyried meini prawf moesegol a Masnach Deg

Gall y cynllun grantiau gael ei gyrchu gan grwpiau yng Nghymru sy'n cydweithio â phartneriaid o Affrica i gyflwyno ystod amrywiol o weithgareddau, gan gynnwys:

- Meithrin gallu mudiadau datblygu rhyngwladol bach anllywodraethol yng Nghymru
- Hyrwyddo gwirfoddoli datblygu rhyngwladol
- Hyrwyddo arferion gorau mewn masnach deg a chaffael moesegol ar draws pob sector
- Hwyluso gwaith cymunedau ar wasgar yng Nghymru i gael cymaint â phosibl o effaith ar gyflenwi nodau datblygu cynaliadwy yn eu mamwlad.
- Prosiectau iechyd

- Prosiectau a gaiff eu rhedeg ar gyfer a chan bobl ag anableddau

Mae ceisiadau ar agor i fudiadau cyfansoddiadol yng Nghymru, gan gynnwys:

- Grŵp cyfansoddiadol
- Elusen gofrestredig
- Cwmni Buddiannau Cymunedol
- Sefydliad Corfforedig Elusennol
- Cwmni cyfyngedig drwy warant
- Cwmni cyfyngedig preifat
- Cyngor Cymuned
- Cyngor Tref
- Awdurdod Lleol

Os nad ydych chi'n siŵr a yw eich mudiad yn ffitio'r meini prawf hyn, neu os oes gennych chi gwestiynau cyffredinol, cysylltwch ag WalesAfricaGrants@wcva.cymru.

RHESTR WIRIO CYN YMGEISIO

Cyn gwneud cais i'r gronfa, gwnewch yn siŵr eich bod yn gallu cyflwyno'r dogfennau canlynol i gefnogi'ch cais am gyllid:

- Dogfennau cyfansoddiad/llywodraethu eich mudiad.
- Copi o ddatganiadau ariannol diweddaraf neu gyfrifon archwiliedig blynyddol eich mudiad.
- Tystiolaeth o gyfrif banc y mudiad.
- Copi wedi'i lofnodi o God Ymddygiad Cymru ac Affrica, y gellir ei lawrlwytho yma.
- Copi o Bolisi Amgylcheddol eich mudiad.
- Copi o Bolisi Cyfle Cyfartal eich mudiad. (Os nad oes gennych chi Bolisïau Cyfle Cyfartal ac Amgylcheddol, mae datganiadau o fwriad y mae'n rhaid i'ch mudiad eu llofnodi, a gellir lawrlwytho'r rhain yma).
- Copi o Bolisi Diogelu eich mudiad – Gall Hub Cymru Africa eich cynorthwyo i ddatblygu'r polisi hwn (Rhaid i bolisïau diogelu fod yn addas i'r diben. Os gwelir wrth edrych ar y rhain bod angen eu diweddaru/diwygio, byddwch chi'n cael gwybod. **Ni fydd cais yn cael ei gymeradwyo i'r panel heb bolisi Diogelu digonol**) Gall Hub Cymru Africa eich helpu i ddatblygu polisi diogelu mewn cyd-destun datblygu

rhyngwladol neu gweler y canllawiau:
https://thirdsectorsupport.wales/cy/adnoddau/polisi-diogelu-canllawiau/
https://hubcymruafrica.wales/safeguarding/

- Tystiolaeth o gyllid cyfatebol – os bydd eich prosiect yn defnyddio cyllid o ffynonellau lluosog, bydd angen i ymgeiswyr llwyddiannus ddarparu cadarnhau o gyllid cyfatebol cyn y bydd y taliad grant cyntaf yn cael ei ryddhau.

YMATEB I COVID- 19

Mae pandemig COVID-19 yn parhau i effeithio ar gymunedau ledled y byd, ac mae cynllun grantiau Cymru ac Affrica yn croesawu ceisiadau a fydd yn helpu i liniaru effeithiau'r feirws. Dylai'r angen am weithgarwch gael ei nodi gyda phartner-fudiadau a dylid sicrhau bod rheolau'r wlad yn cael eu dilyn. Y sawl y dyfernir y grant iddo sy'n gyfrifol am sicrhau ei fod yn gwybod y diweddaraf am yr holl ganllawiau statudol yn y wlad y mae'n gweithio ynddi ac am sicrhau bod ei fudiad, neu unrhyw un sy'n cyfrannu at ei brosiect, yn eu dilyn. Os ydych chi'n gweithio gyda phartner o Affrica, cyfrifoldeb deiliad y grant yw sicrhau bod rheolau'r wlad yn cael eu dilyn ac nad oes unrhyw un yn cael ei roi mewn mwy o berygl o ganlyniad i gymryd rhan yn y prosiect a gyllidir.

Mae Iechyd Cyhoeddus Lloegr wedi cyhoeddi adnoddau ar gyfer ymgyrch codi ymwybyddiaeth o COVID-19 yma (Saesneg yn unig). Mae gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ganllawiau technegol ar gyfathrebu risg ac ymgysylltu â chymunedau yma (Saesneg yn unig). Efallai y bydd ymgeiswyr eisiau dod o hyd i adnoddau cenedlaethol perthnasol ar fformatau ac ieithoedd wedi'u targedu at grwpiau amrywiol o'r boblogaeth.

THEMÂU'R GRANT

Bydd prosiectau'n cael eu dyfarnu o dan un o'r pedwar maes thematig canlynol:

1. Iechyd

Rydym yn ceisio cyfrannu at y gwaith o ddiogelu iechyd a llesiant meddyliol a chorfforol cymunedau yn Affrica drwy ein grantiau. Gallai enghreifftiau o hyn gynnwys:

- Cefnogi'r gwaith o rannu gwybodaeth a sgiliau rhwng sefydliadau iechyd yng Nghymru ac Affrica fel bod y ddwy ochr yn dysgu ac yn cael budd;

- Cynorthwyo gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn Affrica i gael ychydig o hyfforddiant a chymorth gan Gymru; a
- Chynorthwyo cymunedau yng Nghymru ac Affrica i gael gafael ar ofal iechyd mwy cyfartal o ansawdd

2. Dysgu Gydol Oes

O dan Dysgu Gydol Oes, byddwn ni'n cynorthwyo unigolion neu grwpiau o bobl ifanc neu oedolion yng Nghymru a/neu Affrica i ennill sgiliau a gwybodaeth. Gall enghreifftiau o hyn gynnwys:

- Cysylltu cymunedau yng Nghymru gyda phartneriaid yn Affrica er mwyn datblygu cyd-ddealltwriaeth o ddatblygiadau byd-eang a materion rhyngwladol;
- Cefnogi anghenion addysgol plant dan anfantais yn Affrica a rhannu'r profiad hwnnw gyda disgyblion ysgol yng Nghymru, gan gyfrannu at eu haddysg ddinasyddiaeth fyd-eang; a
- Chynorthwyo pobl yn Affrica i ddysgu sgiliau ymarferol / galwedigaethol / artistig er mwyn gwella eu bywoliaeth.

3. Y Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd

O dan ein ffrwd grant newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd, byddwn yn cefnogi mentrau sy'n lleihau dirywiad amgylcheddol a cholli bioamrywiaeth yn Affrica yn ogystal â gwaith strategol ac ymarferol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac i amddiffyn pobl rhag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar gyflenwadau bwyd, y dŵr sydd ar gael neu ddiogelwch. Gallai enghreifftiau o hyn gynnwys:

- Gweithgareddau sy'n cynorthwyo ffermwyr yn Affrica i addasu i hinsawdd sy'n newid;
- Prosiectau sy'n galluogi'r defnydd o ynni adnewyddadwy yn Affrica;
- Prosiectau sy'n ymhél pobl yng Nghymru â materion newid hinsawdd fel y maen nhw'n effeithio ar Affrica; neu
- Waith sy'n ceisio cynorthwyo partneriaid yn Affrica i roi arferion datblygu cynaliadwy ar waith

4. Bywoliaeth gynaliadwy

Rydyn ni'n ceisio hybu cyfleoedd bywoliaeth realistig a chynaliadwy yng Nghymru ac Affrica, gan sicrhau bod unigolion wedi'u hymyleiddio yn cael eu cynnwys mewn datblygiadau economaidd a chymdeithasol llawr gwlad. Mae'r mentrau rydyn ni'n eu cefnogi yn cynnwys:

- Mentrau cydweithredol sy'n cynhyrchu incwm ac sy'n cael eu harwain gan y gymuned sy'n cyflwyno budd i Gymru ac Affrica;
- Ymgysylltu â'r cyhoedd drwy ymgyrchoedd Masnach Deg, eiriolaeth neu bolisi;
- Gweithgareddau sy'n dod â'r defnyddiwr yn agosach at y cynhyrchydd mewn modd cynaliadwy;
- Cymorth i brosiectau a gweithgareddau amaethyddol bach; a
- Chymorth i weithgareddau cynhyrchu incwm llawr gwlad.

NI FYDD CYNLLUN GRANT CYMRU AC AFFRICA YN CYLLIDO'R CANLYNOL

- Gweithgareddau crefyddol – gall grwpiau crefyddol wneud cais, ond ni fydd y cynllun yn cyllido unrhyw weithgaredd ag elfen dybiedig o genhadu.
- Teithiau/cyfnewidiadau ysgol – cyfnewidiadau athrawon a fyddai'n fwy addas i gael cyllid o dan raglen Cysylltu Dosbarthiadau'r 'British Council'
- Mentrau preifat er elw

TEITHIO RHYNGWLADOL

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar deithio rhyngwladol wedi newid yn ddiweddar, felly gan hynny, gall Cynllun Grant Cymru ac Affrica gyllido gweithgareddau sy'n gofyn am deithio rhyngwladol unwaith eto. Er y byddwn ni'n ceisio bod mor hyblyg â phosibl, dylid bod yn ofalus wrth gynllunio gweithgaredd sy'n cynnwys teithio; gan gynnwys prynu tocynnau teithio hyblyg lle'n bosibl a sicrhau bod y lefel briodol o yswiriant yn cael ei phrynu.

Os bydd y cyngor yn newid a chyfyngiadau'n cael eu gosod ar deithio eto, dylai unrhyw fudiad neu wirfoddolwr sy'n rhan o brosiect Cymru Affrica a gyllidir ddilyn y canllawiau hyn ar unwaith. Ni fydd unrhyw gostau yr eir iddynt o ganlyniad i beidio â dilyn y canllawiau yn cael eu had-dalu drwy'r cynllun. Ni fydd costau cwarantin yn wariant cymwys ar brosiect Cymru ac Affrica a gyllidir.

TARGEDAU AC ALLBYNNAU

Yn y proffil prosiect, bydd gofyn i chi osod targedau ac allbynnau y gallwch chi fesur llwyddiant eich prosiect yn eu herbyn. Mae rhywfaint o wybodaeth yr ydym yn disgwyl i'r holl brosiectau ei darparu ac i osod targedau ar ei chyfer; y rhain yw **targedau cyffredinol y cynllun**. Bydd gofyn i chi hefyd broffilio

targedau thema benodol ar gyfer o leiaf un thema. Dylech ddewis proffilio'r thema sy'n fwyaf perthnasol i'ch gweithgaredd, ond os oes targedau thema eraill y mae eich prosiect hefyd yn eu cyflawni, yna mae croeso i chi ddarparu targedau ychwanegol.

Cynghorir ymgeiswyr i fod yn realistig wrth osod targedau eu prosiect. Bydd angen i'r targedau a osodir gennych allu cael eu croesgyfeirio'n hawdd â rhan naratif y ffurflen gais am gyllid.

GWARIANT CYMWYS

Bydd cynllun grantiau Cymru ac Affrica yn cyllido costau cyfalaf a refeniw, nid oes cymhareb ofynnol. Dyma enghraifft o gostau cymwys:

- Cyflogau staff
- Gellir cynnwys 15% ychwanegol at gyfanswm costau cyflogau'r staff yn eich costau prosiect i dalu am orbenion fel cyfleustodau a chostau rhedeg, lle y bo'n berthnasol
- Cyfarpar ac offer pan fydd yn amlwg bod eu hangen ar gyfer y prosiect
- Deunyddiau cyhoeddusrwydd
- Llogi lleoliad, llogi stondinau, ffioedd digwyddiadau
- Costau hyfforddi

CYLLID CYFATEBOL

Er nad yw cyllid cyfatebol yn un o ofynion penodol y cynllun, gellir ei ddefnyddio i gefnogi prosiectau ehangach ochr yn ochr â ffynonellau eraill o gyllid. Os yw ymgeisydd wedi sicrhau cyllid cyfatebol ar gyfer gweithgarwch ei brosiect, gellid edrych yn ffafriol ar hyn mewn asesiad. Gellir cynnwys cyllid cyfatebol mewn nwyddau yng nghyllideb eich prosiect, a gallai enghreifftiau o hyn gynnwys gwaith, nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau a ddarperir fel rhodd i'r prosiect gan ddarparwr arall.

Gellir hefyd cynnwys oriau gwirfoddolwyr yng nghyllideb y prosiect. Gellir cael y cyfraddau tybiannol i wirfoddolwyr ar gyfer gwahanol rolau prosiect yr ymgymerir â nhw gan Arolwg Blynyddol y DU o Oriau ac Enillion (ASHE). Bydd y gyfradd leiaf i wirfoddolwyr yn cael ei gosod ar £9.90 yr awr er mwyn cyd-fynd â Chyflog Byw Gwirioneddol y DU (Saesneg yn unig). Parwch rolau eich gwirfoddolwyr â'r gyfradd fwyaf perthnasol:

Gwirfoddolwr cyffredinol (Cyflog Byw)	9.90

Hyfforddwr	14.44
Gweinyddwr Prosiect	10.65
Ymchwiliwr Prosiect	16.85
Cydlynydd Prosiect	14.42
Rheolwr Prosiect	22.49

Defnyddiwch y rhain fel cyfraddau'r awr i gyfrifo cyfraniad amser gwirfoddolwyr. Dylai pob gwirfoddolwr gael disgrifiad o'r rôl y mae'n ei gyfrannu at y prosiect. Efallai y bydd angen i brosiectau gyflwyno tystiolaeth o hyn drwy wirfoddoli.

DIOGELU

Er mwyn cryfhau arferion Diogelu, un o'r amodau i gymeradwyo grant yw bod gofyn i bob derbynnydd grant gynnwys arweinyddion Diogelu hyfforddedig penodol. Mae'r amodau ar gyfer derbyn grant bach o dan y cynllun wedi'u diwygio i gynnwys gofyniad ar bob asiantaeth neu grŵp sy'n derbyn grant i wneud y canlynol:

- Darparu Polisi Diogelu cymeradwy (anfonwch hwn gyda'ch cais)
- Sicrhau bod yr holl gynrychiolwyr o fewn y derbynnydd grant yn ymwybodol o'r polisi a'i ofynion ac wedi cael sesiwn gynefino/hyfforddiant ar hwn
- Dynodi cynrychiolydd fel Arweinydd Diogelu sy'n gyfrifol am dderbyn pryderon diogelu, adrodd ymlaen o dan y weithdrefn gytunedig, cysylltu ag CGGC ac ymateb yn briodol i bryderon. Bydd angen i'r unigolyn dynodedig gwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol ar-lein gyda Hub Cymru Africa

Mae dyletswyddau'r unigolyn hwnnw wedi'u hamlinellu yn y llythyr cynnig grant ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus. Yn gryno, mae'r unigolyn hwnnw'n gyfrifol am:

- Dderbyn a chofnodi adroddiadau ar bryderon Diogelu
- Adrodd y pryder hwnnw i swyddog priodol CGGC
- Cysylltu ag CGGC ar sail meini prawf CGGC er mwyn sicrhau ymateb a dilyniant priodol
- Bydd gofyn bod yr arweinydd diogelu wedi cwblhau Hyfforddiant Diogelu sy'n cynnwys:
- Eglurhad o risgiau a dangosyddion pryderon diogelu
- Eglurhad o'r meini prawf ar gyfer pryder Diogelu y gellir ei adrodd

- Eglurhad o'r ystyriaethau a'r weithdrefn sy'n gysylltiedig â llunio adroddiad
- Eglurhad o'r meini prawf a'r broses y dylai'r derbynnydd grant a CGGC eu dilyn wrth ymateb i bryder diogelu a adroddwyd

Y BROSES YMGEISIO

Er mwyn gwneud cais i Grantiau Cymru ac Affrica, bydd angen i chi gofrestru gyda Phorth Ymgeisio Amlbwrpas CGGC (MAP). Os ydych chi wedi cofrestru gyda MAP o'r blaen, gallwch fewngofnodi drwy nodi eich enw defnyddiwr a chyfrinair ar y sgrin hafan.

Gall mudiadau gofrestru drwy fynd i'r wefan: map.wcva.cymru

Unwaith byddwch chi wedi cofrestru gyda MAP, byddwch chi'n gallu gwneud cais am unrhyw gyfleoedd cyllido a weinyddir gan CGGC.

Darperir canllawiau ar gyfer pob un o'r cwestiynau a bydd ceisiadau'n cael eu hasesu yn erbyn pa mor agos ydynt at fodloni blaenoriaethau'r cynllun a pha mor dda fyddant yn mynd i'r afael â'r manylion a roddwyd. Bydd sgorau'n cael eu dyfarnu yn ôl pa mor dda mae'r cais yn rhoi sylw i'r canllawiau; bydd argymhellion yn cael eu cyflwyno wedyn i Lywodraeth Cymru, a fydd yn gwneud y penderfyniadau cyllido terfynol.

Er y bydd ansawdd y cais ysgrifenedig yn arwain sgôr rhifyddol y ffurflen gais, bydd ffactorau eraill yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar ddyfarniadau cyllid, gan gynnwys y budd i Gymru a chwmpas daearyddol prosiectau, a barn y panel ar y gwahaniaeth cyffredinol y bydd y prosiect yn ei wneud yn yr hyn y mae'n ceisio'i gyflawni.

TALU GRANTIAU

Ar gyfer grantiau o dan £10,000, bydd 100% o'r cyllid yn cael ei dalu ar ddechrau'r prosiect. Bydd grantiau o £10,000 neu fwy yn derbyn 80% ymlaen llaw pan fydd y prosiect yn dechrau, a bydd yr 20% sy'n weddill yn cael ei dalu pan gyflwynir adroddiad prosiect terfynol boddhaol. Mae CGGC yn cadw'r hawl i hawlio'r arian yn ôl ar ran Llywodraeth Cymru os na fydd y derbynnydd yn dilyn y gofynion monitro ac adrodd. Amlinellir hyn yn y telerau ac amodau grant a gyflwynir i ymgeiswyr llwyddiannus.

Derbynnir ceisiadau am brosiectau olynol. Bydd angen adroddiadau monitro bob 6 mis wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen, yn unol â gofyniad o'r grant.

CANLLAWIAU A CHYMORTH PELLACH

I gael unrhyw ganllawiau pellach, cysylltwch ag walesafricagrants@wcva.org.uk neu ffoniwch 0300 111 0124

Gall ymgeiswyr sy'n chwilio am gyngor ar wella ansawdd eu ceisiadau ar gyfer y cynllun grant hwn neu gynlluniau grant eraill, neu gyngor ar wella ansawdd ac effaith eu gwaith gysylltu â Hub Cymru Africa yn advice@hubcymruafrica.org.uk neu ffonio 02920 821057.

Mae croeso i ymgeiswyr gysylltu â'r tîm Cymru ac Affrica i drafod eu cynigion ar unrhyw adeg. E-bost: WalesforAfrica@gov.wales Ffôn: 03000 251670

Meysydd thematig	**Enghreifftiau o weithgareddau**	**Targedau'r cynllun** (sy'n berthnasol i'r holl feysydd thematig)	**Targedau lefel prosiect** (sy'n benodol i'r maes thematig a ddewiswyd)	**Cyfraniadau at Nodau Datblygu Cynaliadwy**	**Cyfraniadau at Ddeddf LlCD**
1. Iechyd	• Cefnogi'r gwaith o rannu gwybodaeth a sgiliau rhwng sefydliadau iechyd yng Nghymru ac Affrica fel bod y ddwy ochr yn dysgu ac yn cael budd; • Cynorthwyo gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn Affrica i gael mynediad at ychydig o hyfforddiant a chymorth; a • Cynorthwyo cymunedau yng Nghymru ac Affrica i gael mynediad at ofal iechyd mwy cyfartal, o ansawdd	Nifer y cymunedau sy'n gysylltiedig yn Affrica i gefnogi'r gwelliant yn eu llesiant Nifer yr unigolion sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol i gefnogi eu llesiant	Nifer y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n cael cymorth yn Affrica Nifer y bobl sy'n cael cymorth i gael mynediad at ofal iechyd mwy cyfartal, o ansawdd (yng Nghymru ac Affrica)	Bydd angen i chi adrodd ar gynnydd y cyfraniadau fel y nodwyd yn eich ffurflen gais gymeradwy a chyfraniadau ychwanegol os ydynt yn berthnasol (Ansoddol yn y cais a monitro) Nodau 1-17	Bydd angen i chi adrodd ar gynnydd y cyfraniadau fel y nodwyd yn eich ffurflen gais gymeradwy a chyfraniadau ychwanegol os ydynt yn berthnasol (Ansoddol yn y cais a monitro) Nodau 1-17
2. Dysgu Gydol Oes	• Cysylltu cymunedau yng Nghymru gyda phartneriaid yn Affrica er mwyn datblygu cyd-ddealltwriaeth o ddatblygiadau byd-eang a materion rhyngwladol; • Cefnogi anghenion addysgol plant dan anfantais yn Affrica a	Nifer y cysylltiadau a sefydlwyd rhwng cymunedau yng Nghymru ac Affrica. Nifer y gwirfoddolwyr o Gymru sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r prosiect	Nifer o gymunedau a gysylltwyd yng Nghymru ac Affrica Nifer y plant ysgol o Gymru sy'n gysylltiedig Nifer y plant yn Affrica sydd wedi'u		

	rhannu'r profiad hwnnw gyda disgyblion ysgol yng Nghymru, gan gyfrannu at eu haddysg fyd-eang; a • Chynorthwyo pobl yn Affrica i ddysgu sgiliau ymarferol / galwedigaethol / artistig er mwyn gwella'u bywoliaeth (e.e. theatr a dawns, TG a gwaith coed).	Nifer y bobl o gymunedau yng Nghymru sy'n cefnogi'r prosiect trwy roddion, digwyddiadau a fynychwyd ac ati Nifer y mudiad sydd wedi'u cryfhau neu eu grymuso o ganlyniad i weithio mewn partneriaeth Nifer y digwyddiadau/sesiynau a gyflwynwyd (nifer y bobl a fynychodd? – yng Nghymru neu Affrica) Beth sy'n ymarferol i'w gofnodi gan Bartneriaid yn Affrica?	cefnogi â'u hanghenion addysgol Nifer y bobl sydd wedi'u cynorthwyo i wella eu sgiliau (Cymru ac Affrica)		
3. Y Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd	• Gweithgareddau sy'n cynorthwyo ffermwyr yn Affrica i addasu i hinsawdd sy'n newid; • Prosiectau sy'n galluogi ynni adnewyddadwy i gael ei ddefnyddio yn Affrica; • Prosiectau sy'n ymhél pobl yng Nghymru â materion newid hinsawdd fel y maen nhw'n effeithio ar Affrica; neu • Gwaith sy'n ceisio cynorthwyo partneriaid yn Affrica i		Nifer y ffermwyr yn Affrica a gaiff eu cynorthwyo i addasu i'r newid yn yr hinsawdd Nifer y cymunedau a gefnogir i ddefnyddio ynni adnewyddadwy Nifer yr unigolion sy'n gysylltiedig â lleihau effaith y newid yn yr hinsawdd		

	roi arferion datblygu cynaliadwy ar waith				
4. Bywoliaeth Gynaliadwy	• Mentrau cydweithredol sy'n cynhyrchu incwm a arweinir gan y gymuned sydd o fudd i Gymru ac Affrica; • Ymhél â'r cyhoedd drwy ymgyrchoedd Masnach Deg, eiriolaeth neu bolisi; • Gweithgareddau sy'n dod â'r defnyddiwr a'r cynhyrchydd yn agosach mewn modd cynaliadwy; • Cymorth i brosiectau a gweithgareddau amaethyddol bach; a • Chefnogi gweithgareddau cynhyrchu incwm llawr gwlad e.e. celfyddydau a chrefft.		Nifer o fentrau cydweithredol cymunedol a gefnogir Nifer o fentrau cydweithredol cymunedol a sefydlwyd Nifer y bobl y cysylltwyd â nhw drwy ymgyrch Masnach Deg Nifer yr unigolion a gefnogwyd i wneud eu bywoliaeth yn fwy cynaliadwy		